

Cynorthwydd Digidol Disgrifiad Swydd

Cefndir

Mae Llantarnam Grange yn Ganolfan ar gyfer Celf a Chrefft Gyfoes yng Nghwbrân, ac yn nodweddiadol rydym yn ymgysylltu â thua 40,000 o bobl bob blwyddyn trwy ein harddangosfeydd a'n hamrywiaeth eang o raglenni ymgysylltu â'r gymuned leol. Mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â ni yn y ganolfan, mewn lleoliadau ledled y wlad, ac yn cysylltu'n ddigidol, gan gyfnerthu ein safle fel adnodd gwerthfawr yn ein sir, ein rhanbarth ac yn genedlaethol. Cwblhawyd proses ail-frandio ar y sefydliad yng Ngwanwyn 2021 a lansiom wefan newydd ym mis Hydref 2021, gyda'r nod o greu 'Lleoliad Digidol' sy'n ategu ein hadeilad ffisegol, gan gefnogi artistiaid a'n cynulleidfaoedd a chynnig ymdeimlad unigryw o le.

Cynorthwydd Digidol

Dyma gyfle i Gynorthwydd Digidol ymuno â'n tîm ar contract dros dro. Mae'r tîm yn cynnwys ein Cyfarwyddwr, Swyddog Marchnata a Datblygu, Uwch Swyddog Addysg, Gweinyddwr, Swyddog Arddangosfeydd, Rheolwr y Caffi a Rheolwr Cynorthwyol y Caffi. Y tu allan i'r tîm craidd hwn, rydym yn gweithio gydag artistiaid a gwneuthurwyr llawrydd i hyrwyddo gwaith y sefydliad. Mae Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange yn elusen ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant a lywodraethir gan fwrdd ymddiriedolwyr sy'n cefnogi'r cwmni mewn capasiti gwirfoddol. Rydym yn chwilio am berson a fydd yn dangos gwir ymrwymiad i'r gwaith a wnawn gyda'r gymuned leol a sector y celfyddydau. Am fanylion am ein gwaith, ewch i www.llantarnamgrange.com.

Pwrpas y swydd

Cefnogi'r Swyddog Marchnata a Datblygu i gyflawni Strategaeth Ddigidol y sefydliad, gan wella ein cynnig digidol i bartneriaid, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a rhanddeiliaid ar draws pob llwyfan.

Rolau a chyfrifoldebau allweddol

- Cynorthwyo i weithredu Strategaeth Ddigidol Llantarnam Grange
- Cefnogi, a chymryd rhywfaint o gyfrifoldeb, wrth reoli a chynnal ein gwefan a'n llwyfannau ar-lein o ddydd i ddydd, gan gynnwys Facebook, Instagram, x (Twitter gynt), YouTube ac ati.
- Gweithio gyda'r Swyddog Marchnata a Datblygu i ddatblygu tudalennau gwe newydd, negeseuon a chynnwys ar-lein gan gynnwys: gwella gwybodaeth am arddangosfeydd a theithiau, cefnogi artistiaid, gwybodaeth am fynediad, a chreu tudalennau newydd ar gyfer 'Ymweld â Ni' a 'Llogi Ystafelloedd'.
- Casglu deunydd digidol sydd eisoes ar gael, yn cynnwys fideos, adnoddau a theithiau Oriel 360o, a'u paratoi yn barod i'w cyflwyno ar-lein ar ein gwefan a llwyfannau eraill.
- Cynorthwyo i ddatblygu ein Siop Grefftau Ar-lein
- Creu copi ysgrifenedig hygyrch i gyd-fynd â deunydd, tudalennau gwe a negeseuon newydd
- Sicrhau bod brand, llais a gwerthoedd Llantarnam Grange yn gyson ar draws yr holl negeseuon.
- Cynorthwyo i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo yn cynnwys gwahoddiadau i arddangosfeydd, paneli dehongli, taflenni a phosteri, ochr yn ochr â dylunwyr allanol
- Cynorthwyo i ddatblygu ymgyrchoedd e-bost a rhestrau postio

f @llantarnam.grange @llantarnam_grange @LlantarnamGrange

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

- Cefnogaeth gyda Monitro Digidol, yn cynnwys casglu ystadegau sy'n ymwneud â thraffig ar y we a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- Darparu a chyflwyno adroddiadau yn ôl yr angen ar gais y Cyfarwyddwr a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Sicrhau cydymffurfiaid â holl Bolisiau Llantarnam Grange

Manyleb Person

Byddai'r swydd hon yn addas i rywun sydd â rhywfaint o brofiad o weithio yn y maes marchnata digidol a chyfathrebu sy'n ystyried ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae arnom angen rhywun sy'n hyderus yn eu sgiliau digidol, ac sydd â brwdfrydedd i weithio mewn gwahanol fannau ar-lein o fewn sector y celfyddydau. Gallai hyn gynnwys graddedigion diweddar neu gyfwerth, yn ogystal â phobl greadigol hunanddysgedig, y rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith, neu sy'n ystyried newid gyrfa.

Bydd y rôl dan oruchwyliaeth ein Swyddog Marchnata a Datblygu a fydd yn rheoli ac yn arwain ar unrhyw hyfforddiant sydd ei angen. Os oes gennych ddull creadigol o ddylunio deunyddiau cyfathrebu a bod gennych ffocws cryf ar weithio gyda'n cymunedau, carem glywed gennych. Mae arnom angen rhywun sy'n deall sut i greu gwybodaeth hygyrch at amrywiaeth o ddibenion, manau digidol, a chynulleidfaoedd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwd dros y celfyddydau a diwylliant ac yn eiriolwr dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd angen i chi fedru gweithio'n dda gyda'r tîm ond yn gallu bod yn hunangymhellol wrth weithio'n annibynnol.

Priodoleddau, profiad a sgiliau allweddol

Hanfodol:

- Sgiliau creu digidol, gan gynnwys creu cynnwys delwedd a fideo a phrofiad o weithio ar Adobe Suite
- Profiad o gynnal a rheoli gwefannau (WordPress yn benodol)
- Ymdeimlad cryf â delweddau gweledol a sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys sgiliau ysgrifennu testun creadigol a sgiliau prawf ddarllen.
- Y gallu i roi sylw hynod fanwl i fanylion a chywirdeb
- Sgiliau gweinyddol a chyfathrebu cryf
- Ymagwedd strategol a chreadigol, gyda'r gallu i weithio i derfynau amser wrth reoli llawer o flaenoriaethau
- Unigolyn hunangymhellol sy'n gweithio'n dda yn annibynnol ac fel rhan o dîm bach
- Awydd i hyrwyddo barn a safbwyntiau cynulleidfaoedd drwy'r holl weithgareddau marchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu
- Ymrwymiad personol a phroffesiynol i gyfle cyfartal ac i amrywiaeth yn ei holl ffurfiau

Dymunol:

- Profiad o weithio mewn sectorau creadigol, diwylliannol neu elusenol
- Y gallu i siarad/ysgrifennu yn Gymraeg
- Diddordeb a gwybodaeth am gelf a chreffft gyfoes
- Profiad o farchnata ar gyfer digwyddiadau celf a chreffft gyfoes
- Profiad o reoli archebion a nwyddau sy'n cael eu gwerthu ar-lein
- Gradd neu brofiad cyfwerth
- Gwybodaeth gadarn am Adobe Suite a rheoli gwefan

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

Tâl ac Amodau:

Oriau: Bydd y cyflog dros 40 diwrnod o 9 Rhagfyr 2024 tan 28 Chwefror 2025 (h.y. 4 diwrnod yr wythnos am 10 wythnos). Cadarnheir y dyddiad cychwyn gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Yr oriau gwaith yw 9am i 4pm ac mae'r adeilad ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Mae'r oriau/diwrnodau gwaith yn hyblyg a bydd cyfleoedd i weithio gartref. Bydd Llantarnam Grange ar gau ac ni fydd staff yn gweithio o 3pm ddydd Mawrth 24 Rhagfyr. Byddant yn dychwelyd ddydd Llun 6 Ionawr.

Cyfanswm y ffi am gyflog 40 diwrnod: £3276.00

Cyflog Byw Gwirioneddol: £12.60 yr awr
Diwrnod gwaith: 6.5 awr y dydd

Efallai y bydd mwy o oriau ar gael, yn ogystal â diwrnodau hyfforddi â thâl.

Buddiannau eraill:

Disgownt staff yn yr arddangosfeydd, y siop grefftau a'r caffi
Rhaglen hyfforddi barhaus
Parcio am ddim a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da

Oriau agor y ganolfan yw dydd Llun i ddydd Sadwrn 9.30-4.00 (staff ar y safle 9.00-4.00)
Lleoliad: Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange, St David's Road, Cwmbrân, Torfaen, NP44 1PD

Sut i ymgeisio

Anfonwch lythyr cais a'ch CV **drwy e-bost yn unig** at ein Gweinyddwr Alice Bethune
alice.bethune@llantarnamgrange.com

Dyddiad cau: 9am, dydd Llun 2 Rhagfyr 2024

Dyddiad y Cyfweiliad: Dydd Mawrth 3 Rhagfyr

Mae Llantarnam Grange yn gynhwysol:

Yn Llantarnam Grange rydym yn chwilio am bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau ac a all ein helpu i weithio mewn ffyrdd newydd a dod yn fwy perthnasol i'r cymunedau a wasanaethwn. Rydym yn Gyflogwr Cyfleoedd Cyfartal ac yn Elusen Gofrestredig. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd yn cael eu tangynrychioli yn y sector celfyddydau gweledol, yn cynnwys pobl o dreftadaeth ethnig Ddu, Asiaidd neu Ieiafrifol, sy'n wynebu rhwystrau economaidd gymdeithasol, sy'n eu hystyried eu hun yn LHDTG+, a'r rheini sydd ag anabledau. Bydd pob cais am y swydd hon yn cael ei thrin yn gyfartal ac yn gyfrinachol. Bydd recriwtio ar gyfer y swydd hon yn seiliedig ar deilyngdod.

Cysylltu:

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, cysylltwch â ni. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl a'r broses a byddwn yn hapus i drafod unrhyw agwedd ar weithio yn Llantarnam Grange:

Alice Bethune, Gweinyddwr – alice.bethune@llantarnamgrange.com

Sophie Lindsey, Swyddog Marchnata a Datblygu – Sophie.lindsey@llantarnamgrange.com

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD